Swydd Ddisgrifiad

Teitl Swydd:	**Rheolwr Prosiectau Ail-ddefnyddio FRAME**
Yn atebol i:	Rheolwr Gyfarwyddwr
Lleoliad:	Safleoedd amrywiol ond yn sefydlog ym Mhont Fadlen, Sir Benfro
Cyflog:	£ 24,500
Oriau gwaith:	37.5 awr

Cytundeb Rhannol Gyllido Cyfnod Penodol 12-mis

SWYDD DDISGRIFIAD

Mae'r swydd llawn amser hon am gyfnod o flwyddyn wedi'i rhan gyllido gan Gronfa Gymunedol Treth Tirlenwi'r CGGC er mwyn gwireddu Prosiect Ail-ddefnyddio'r Sied Werdd. Mae'r swydd yn ymwneud â rheoli tîm bychan i gyflawni prosiectau ail-ddefnyddio yn FRAME Sir Benfro, recriwtio, cefnogi a rheoli gwirfoddolwyr prosiect a datblygu a chydlynu achlysuron a gofod cynhadledd yn y Sied Werdd. Bwriad y swydd yw cyfrannu tuag at welliant parhaus mewn perfformio amgylcheddol yn safleoedd FRAME Sir Benfro, Pont Fadlen a Doc Penfro a hwyluso newid ymddygiadol tra darparir cyfleoedd i wirfoddolwyr ac ymwelwyr i gymryd rhan yn agenda cynaladwyedd amgylcheddol/carbon isel FRAME.

Mae rhychwant y gwaith ar gyfer y swydd amrywiol yn cynnwys:

- Datblygu, cyflawni, a rheoli Rhaglen Canfod Gwirfoddolwyr i gefnogi a rheoli gwirfoddowyr ail-ddefnyddio ar gyfer prosiectau ail-ddefnyddio yn FRAME Sir Benfro;
- Rheoli prosiectau cyfredol a chyflawni prosiectau ail-ddefnyddio newydd eu datblygu ar safleoedd FRAME gan gynnwys prosiect Ail-glustogi newydd.
- Rheoli tîm bychan yn cynnwys Cydlynydd Gwirfoddol Ail-ddefnyddio a gweithwyr cefnogi prosiect ail-ddefnyddio.
- Datblygu a hyrwyddo calendr o achlysuron cynaliadwy blynyddol yn y Sied Werdd yn cynnwys achlysuron rhithiol a chyfleuster cynhadledda fideo.
- Cydlynu'r hyrwyddo, bwcio a rhedeg cyfarfodydd a gweithgaredd yn yr Ystafell Werdd – cynhadledd, cyfarfod a chyfleuster gofod.
- Datblygu a Rheoli prosiect masgot newydd FRAME, datblygu dolenni gydag ysgolion a dylunio a chyflawni rhaglen addysg ysgol masgot FRAME.
- Gall y swydd olygu peth gwaith gyda'r nos a'r penwythnos

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

- Datblygu rhaglen flynyddol o achlysuron/gweithgareddau Sied Werdd (wedi'u cysylltu â holl safleoedd FRAME) wedi'u bwriadu i hyrwyddo ailddefnydd a chynaladwyedd amgylcheddol

ac annog newid ymddygiadol ymhlith y gymuned leol, ysgolion, gwirfoddolwyr, cyfranogwyr FRAME ac ymwelwyr i FRAME Sir Benfro h.y. Wythnos Werdd Gyfan, Wythnos Ymwybyddiaeth Beiciau, Diwrnod Cefnforoedd Byd, Diwrnod y Ddaear, Pythefnos Masnachu Teg, Wythnos Arbed Ynni, Ail-ddefnyddio Cymunedol, Cyfnewid Teganau, Cyfnewid Dillad ac ati. Mewn ymateb i gyfyngiadau Covid 19 achlysuron rhithiol dylunio, datblygu a chyflawni i'w cynnwys yn y calendr.

- Rhwydweithio gyda grwpiau cynaladwyedd, cynrychiolwyr a bwcio a chydlynu darpar siaradwyr i gyflwyno neu i fod yn ymwneud ag achlysuron ystafell werdd yn canolbwyntio ar gynaladwyedd, a chynorthwyo i sicrhau gwirfoddolwyr, cyfranogwyr a'r gymuned leol i ymwneud ag agenda amgylcheddol FRAME e.e. ail-ddefnyddio, ailgylchu a mentrau bwydydd cynaliadwy (Oherwydd Covid 19 bydd rhai o'r achlysuron hyn yn rhithiol).

- Cynnal dyddiadur yr Ystafell Werdd, cydlynu a rheoli bwcio ac achlysuron. Bod yn fan cyswllt ar gyfer ymholiadau Ystafell Werdd a bod ar gael i gefnogi trefnwyr achlysuron gydag ymholiadau technegol ac arlwyo ac ati yn ystod eu gweithgaredd.

- Rheoli prosiectau ail-ddefnyddio ym Mhont Fadlen a Doc Penfro. Cadw at a dilyn deddfwriaeth briodol, bod yn fan cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau'n ymwneud â phrosiectau a bod yn ystyriol o anghenion a gofynion partneriaid prosiect. Sicrhau cyflawni pob gweithgaredd yn unol â phellter cymdeithasol Covid 19 a rheoliadau iechyd a diogelwch.

- Annog gwirfoddolwyr a chyfranogwyr i gydweithio i ail-ddefnyddio a lleihau gwastraff ac annog ymddygiad cynaliadwy.

- Cyflwyno rhaglen canfod a rheoli gwirfoddolwyr. Recriwtio, hyfforddi a rheoli gwirfoddolwyr a chynorthwyo i gynllunio a chyflawni prosiectau ail-ddefnyddio.

- Cynorthwyo gwirfoddolwyr i ddatblygu a chynnal eu hachlysuron bychain eu hunain megis 'Cyfnewid' a gweithdai a mentrau ail-ddefnyddio ac ailgylchu eraill yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth trwy achlysuron, gwaith cyfryngol a gweithredoedd.

- Cynllunio, ysgrifennu a chynhyrchu deunyddiau codi ymwybyddiaeth wedi'u dylunio'n dda yn cynnwys canllawiau gweithredu, cylchlythyrau, cyfeiriaduron, diweddaru e-byst, tudalennau cyfryngau cymdeithasol a gwefannau sy'n cyfathrebu cynaladwyedd ac ail-ddefnyddio mewn dull hygyrch a hawdd ei ddeall.

- Monitro a gwerthuso'r holl brosiectau a chefnogi'r Rheolwr Datblygu wrth baratoi ystadegau ac adroddiadau. Cynorthwyo i ddatblygu a chasglu tystiolaeth gychwynnol i gynorthwyo i

gefnogi ceisiadau cyllid, gweithgaredd hyrwyddo e.e. holiaduron, gwastraff, a gwiriadau ailgylchu ac ati.

Yn ychwanegol, disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus:

- I gynorthwyo gyda dyletswyddau a gweithgareddau eraill sy'n cefnogi prosiect cyllido Ail-ddefnyddio'r Sied Werdd.
- I gynnal gwasanaeth cwsmer heb ei ail yn sicrhau y bydd yr holl gwsmeriaid a chleientiaid yn cael eu trin yn effeithlon ac mewn modd priodol.
- I weithio o fewn y gweithdrefnau, polisïau a deddfwriaeth berthnasol.
- I gymryd rhan yn y Broses Werthuso Flynyddol.
- I gefnogi'n weithredol bolisïau cydraddoldeb ac amrywaieth FRAME Sir Benfro.
- I fynychu cyrsiau hyfforddiant a nodir ac a gytunir ar gyfer datblygiad priodol.
- I weithio oddi fewn y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle; mae gan y sawl sydd yn y swydd ddyletswydd gyfreithiol i gymryd gofal rhesymol o ofynion Iechyd a Diogelwch er ei fwyn ei hun ac er mwyn eraill a allai gael eu heffeithio gan ei weithredoedd.
- I gyflawni dyletswyddau eraill nad ydyn nhw wedi'u nodi'n benodol a fydd o bryd i'w gilydd yn angenrheidiol heb newid natur na lefel cyfrifoldeb.

Potensial ymestyn y cytundeb a'r swydd i fod yn barhaol yn dibynnu ar gyllido

Diweddarwyd diwethaf 10fed Mehefin 2020